# Datganiad Polisi Cyhoeddus

# Diogelu pobl hŷn

# Mai 2021

## Crynodeb

Mae gan bob un ohonom yr hawl i fyw'n rhydd rhag camdriniaeth o unrhyw fath. Ni ddylai ein hoedran na'n hamgylchiadau gael unrhyw ddylanwad neu effaith ar yr hawl sylfaenol hon.[1] Nid yw oedran yn lleihau hawl unigolion i fyw ag urddas a pharch.[2]

Rydym yn croesawu'r cynigion yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio i roi cynllun cenedlaethol ar waith i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin.[3]

Mae deddfwriaeth yn elfen hanfodol o ddiogelu oedolion; mae ganddi'r gallu i bennu dyletswyddau a phwerau statudol fel bod pob asiantaeth allweddol yn amddiffyn oedolion yn effeithiol. Mae arfau eraill i amddiffyn oedolion rhag cael eu cam-drin yn cynnwys polisi adnewyddedig, mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus, hyfforddiant, a'r gallu i fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn creu sail statudol ar gyfer diogelu oedolion ac yn ffurfio fframwaith cyfreithiol ar gyfer amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae'r Codau Ymarfer a'r Rheoliadau'n ffurfio gweithrediad y Ddeddf drwy gwblhau'r fframwaith y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae'r rhain yn cynnwys Arweiniad Statudol yn ymwneud â Diogelu a Chod Ymarfer ar Eiriolaeth. Mae'r Ddeddf wedi sefydlu Byrddau Diogelu hefyd.

Rhaid i asiantaethau gydweithio â'i gilydd i ddiogelu unigolion, cynnal hawl sylfaenol unigolion i fod yn ddiogel, lleihau bregusrwydd a chefnogi'r rhai sydd wedi cael profiad o gam-drin neu esgeulustod.

Rhaid i awdurdod lleol roi ei ddyletswydd i wneud ymholiadau wrth wraidd ei ymateb i bryderon diogelu cychwynnol sy'n cael eu codi, a gwella tryloywder yn y modd y mae atgyfeiriadau a phryderon yn cael eu prosesu. Ar ben hynny, rhaid iddynt

[1] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020. https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/information-guides-and-factsheets/fs78w.pdf
[2] Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneddio: Cymru o blaid pobl hŷn. https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn
[3] Ibid.

sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio diogel yn hygyrch ac ar gael mewn ystod o fformatiau er mwyn hwyluso atgyfeiriadau gan drydydd partïon, gan gynnwys pobl hŷn.

Rhaid i hyfforddiant ar ddiogelu oedolion fod yn orfodol i'r holl staff sydd ynghlwm wrth gefnogi a gofalu am bobl hŷn, a rhaid prif-ffrydio hawliau dynol wrth ddatblygu polisi ac arfer ar gyfer cefnogi a gofalu am bobl hŷn.

Gall eiriolaeth annibynnol helpu i unioni'r anghydbwysedd o ran pŵer sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd o gamdriniaeth, a galluogi'r unigolyn i adennill rhywfaint o reolaeth. Er mwyn cynnig 'llais a rheolaeth', yn unol â bwriad penodedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r gallu i fanteisio ar gymorth eiriolaeth annibynnol yn dyngedfennol – yn enwedig i oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, a'r rhai sy'n destun ymchwiliad diogelu. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr gwasanaethau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth ymhlith pobl hŷn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â nhw.

Yn aml, caiff pobl hŷn eu targedu gan dwyll ariannol. Credwn y dylai fod mesurau gwell i amddiffyn pobl hŷn rhag twyllwyr masnach a thwyll ar drothwy'r drws. Hefyd, dylai Llywodraeth y DU roi dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau i leihau faint o dwyll sy'n digwydd drwy rwydweithiau post, ffôn a'r rhyngrwyd.

Er mwyn cyflawni Cymru sydd o blaid pobl hŷn, dylai pobl hŷn allu byw heb ofni dioddef ar law twyllwyr, boed hynny ar drothwy'r drws, drwy'r post, dros y ffôn neu ar-lein.

Credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir pwys cyfartal ar atal cam-drin yng Nghymru, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni arloesol o waith ataliol.

**Crynodeb o gynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y cynllun cenedlaethol arfaethedig i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Rhaid i ddeddfwriaeth hawliau dynol y DU yn y dyfodol warchod yr hawliau a'r rhyddfreiniau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid iddi beidio â thanseilio effeithiolrwydd na chwmpas y Ddeddf Hawliau Dynol na'r potensial i'w gorfodi, a rhaid iddi adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru.
- Rhaid cynnig gwasanaethau cymorth a diogelu hanfodol i'r bobl hŷn hynny a allai fod wedi dioddef cam-drin yn ystod cyfnod clo'r pandemig Covid-19, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio.
- Rhaid monitro gweithrediad argymhellion adroddiad Flynn (yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i esgeulustod preswylwyr hŷn mewn cartrefi gofal).
- Rhaid i bob asiantaeth sydd ynghlwm wrth ofal a chymorth i bobl hŷn fabwysiadu ymagwedd gyson tuag at ddiogelu. Rhaid i hyfforddiant ar ddiogelu oedolion fod yn orfodol i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth i bobl hŷn.
- Rhaid i awdurdodau lleol roi eu dyletswydd i wneud ymholiadau wrth wraidd eu hymateb i bryderon diogelu cychwynnol sy'n cael eu codi, a gwella tryloywder yn y modd y caiff atgyfeiriadau a phryderon eu prosesu.

- Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio diogelu yn hygyrch ac ar gael mewn ystod o fformatiau er mwyn hwyluso atgyfeiriadau gan drydydd partïon, gan gynnwys pobl hŷn.
- Rhaid prif-ffrydio hawliau dynol wrth ddatblygu polisi ac arfer gan bob asiantaeth sydd ynghlwm wrth ofal a chymorth i bobl hŷn.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr gwasanaethau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fodolaeth, diben a manteision eiriolaeth ymhlith pobl hŷn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â nhw.
- Dylai'r holl bobl hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth, p'un a ydynt yn bodloni meini prawf oedolyn mewn perygl ai peidio, gael cynnig gwasanaethau eiriolwr gan awdurdodau lleol.
- Mae angen gwaith rhyngasiantaethol gwell rhwng gwasanaethau amddiffyn oedolion a gwasanaethau cam-drin domestig fel bod pobl hŷn yn cael cymorth ac ymyriadau priodol cyn gynted ag y bo modd.
- Dylai Llywodraeth y DU ddarparu mwy i ddiogelwch i bobl hŷn sy'n cael eu targedu gan dwyll drwy roi dyletswydd ar ddarparwyr post, ffôn a'r rhyngrwyd i leihau faint o dwyll sydd yn eu rhwydweithiau.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir pwys cyfartal ar atal cam-drin yng Nghymru, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni arloesol o waith ataliol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## Diogelu pobl hŷn

Mae'r datganiad polisi hwn yn cwmpasu:

- Deddfwriaeth a pholisi
- Cam-drin pobl hŷn
- Diogelu
- Eiriolaeth
- Mynediad i gyfiawnder
- Troseddau casineb
- Cam-drin ariannol.

Eir i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran a hawliau dynol yn fanylach yn safbwynt polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Gwahaniaethu a Hawliau Dynol'. Eir i'r afael ag eiriolaeth yn fanylach yn safbwynt polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth'.

## Deddfwriaeth a pholisi

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[4] (Rhan 7) yn creu sail statudol ar gyfer diogelu oedolion ac yn ffurfio fframwaith cyfreithiol ar gyfer amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Codau Ymarfer a'r Rheoliadau sy'n ffurfio gweithrediad y Ddeddf drwy gwblhau'r fframwaith y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio oddi mewn iddo. Mae'r rhain yn cynnwys Arweiniad Statudol yn ymwneud â Diogelu a Chod Ymarfer ar Eiriolaeth.

Mae Adran 7(1) Rhan 2 y Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar unigolion sy'n arfer swyddogaethau dan y ddeddf i roi ystyriaeth briodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig i Bobl Hŷn.[5] Mae dogfennau arweiniad yn darparu fframwaith i asiantaethau allweddol atal, amlygu ac ymateb i gamdriniaeth (neu gamdriniaeth bosibl) o oedolion sy'n agored i niwed. Rhaid i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a sefydliadau neu asiantaethau eraill sydd ynghlwm, ddilyn a chydymffurfio â'r arweiniad, sydd i'w weld ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru (gweler[6]).

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol i roi gwybod pan maent yn amau y gallai pobl fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Caiff hyn ei gefnogi gan ddyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymholiadau lle mae amheuaeth bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Caiff y dyletswyddau hyn eu hategu gan

---

[4] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

[5] Llywodraeth Cymru (2016) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl. Cyfrol 1- Cyflwyniad a Throsolwg. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf

[6] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020. https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/information-guides-and-factsheets/fs78w.pdf

bŵer i wneud cais i'r llysoedd am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO). Bydd y Gorchymyn yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i eiddo i siarad yn breifat â'r oedolyn y mae amheuaeth ei fod mewn perygl er mwyn canfod a yw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd, a yw mewn perygl a ph'un a oes angen cymryd unrhyw gamau ai peidio.[7,8]

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Diogelu Oedolion Rhanbarthol i sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol eu rhoi ar waith a'u bod yn parhau'n addas i'r diben.[9] Mae hefyd yn sefydlu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sy'n cynnig cymorth a chyngor i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellir gwella trefniadau diogelu.[10]

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi datblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru[11] ar y cyd â grwpiau rhanddeiliaid ledled Cymru. Nod y gweithdrefnau hyn yw 'cryfhau a chadarnhau'r' arweiniad presennol, ac egluro'n fwy trylwyr gyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm wrth ddiogelu, a sut gallant sicrhau eu bod yn bodloni'r cyfrifoldebau hyn[12] (gweler Diogelu isod).

Mae Cod Ymarfer Rhan 10 y Ddeddf (Eirioli) yn rhoi dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol yn ymwneud â darparu gwasanaethau eirioli. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr angen i ddiogelu oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac, ar y cyd â'r unigolyn, rhaid iddynt ddod i gasgliad ynghylch trefniadau i benodi eiriolwr proffesiynol annibynnol i gynorthwyo a chynrychioli unigolyn sy'n destun ymholiad diogelu.[13]

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, drwy gydweithio â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru'.[14] Diben y canllaw yw galluogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i weithio'n fwy effeithiol â phobl hŷn sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig.[15]

Yn 2014, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'.[16] Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol

---

[7] Llywodraeth Cymru (2017) Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru.
[8] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020.
[9] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg, Llywodraeth Cymru, 2016
[10] Ibid.
[11] Gweithdrefnau Diogelu Cymru https://www.diogelu.cymru/
[12] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020.
[13] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, Llywodraeth Cymru, 2016
[14] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru. https://www.olderpeoplewales.com/cy/stopping-abuse/guidancedomesticabuse.aspx
[15] Ibid.
[16] Llywodraeth Cymru (2014) Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu

Llywodraeth Cymru (2020-2024)[17] yn cynnwys y nod hirdymor i ddileu gwahaniaethu, erledigaeth, difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.

Mae'r mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu ei Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV), sy'n cydnabod y gall dioddefwyr fod ar draws sbectrwm cyfan y gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn.[18] Rydym yn croesawu'r cynigion yn y strategaeth i roi cynllun cenedlaethol ar waith i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin.[19]

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn darparu fframwaith i fynd i'r afael â cham-drin. Dywed Erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fod gan bobl yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith, triniaeth annynol neu driniaeth ddiraddiol, ac felly mae'n uniongyrchol berthnasol i achosion o gam-drin. Ni fydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar statws y DU fel llofnodydd i'r Confensiwn fel mater o drefn. Mae'r Confensiwn yn gytuniad rhyngwladol ar wahân i gytuniadau'r UE a Siarter yr UE ar Hawliau Sylfaenol. Safbwynt Age Cymru yw bod rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y dyfodol ddiogelu'r hawliau a'r rhyddfreiniau yn y Confensiwn, ac ni ddylai danseilio effeithiolrwydd na chwmpas y Ddeddf Hawliau Dynol na'r potensial i'w gorfodi, a rhaid iddi adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru.[20]

Nod y Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru yw egluro hawliau pobl hŷn fel y maent wedi'u tanategu eisoes gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol bresennol, er nad oes iddo unrhyw effaith gyfreithiol.[21]

**Effaith y pandemig Covid-19**

Dywed Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio fod y pandemig Covid-19 wedi meinhau'r ffocws ar gam-drin.[22] Mae'r pandemig Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015[23] a sefydlwyd Grŵp Strategol COVID-19 VAWDASV COVID-19 i gyfeirio ymdrechion at fynd i'r afael ag effaith y pandemig.[24]

---

[17] Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf

[18] Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneddio: Cymru o blaid pobl hŷn. https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn

[19] Ibid.

[20] Age Cymru (2017) Ymateb Age Cymru i'r ymgynghoriad gan Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Hawliau Dynol yng Nghymru.

[21] Llywodraeth Cymru (2014) Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.

[22] Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneddio: Cymru o blaid pobl hŷn. https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn

[23] Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad Ysgrifenedig. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: dathlu pum mlynedd ers i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ddod i rym https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-dathlu-pum-mlynedd

[24] Ibid.

Mae ymwybyddiaeth isel o gam-drin pobl hŷn ar draws ein cymunedau, ac rydym yn poeni am yr hyn nad yw'n cael ei hysbysu ac sy'n cael ei guddio o hyd, a'r posibilrwydd y daw mwy o achosion o gam-drin i'r amlwg wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo Covid-19 gael eu llacio. Gan fod nifer fawr o'r gwasanaethau cymorth i bobl hŷn o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu i wasanaethau ffôn yn unig, a chan fod llawer o bobl hŷn yn gwarchod eu hunain yn ystod yr argyfwng, ni fu'r gwaith wyneb-yn-wyneb a allai amlygu tystiolaeth o gam-drin, fel arfer, yn digwydd. Gallai'r cam-drin fod wedi dechrau yn ystod y cyfnod clo, neu efallai ei fod wedi'i guddio ac na fu'r cyfleoedd i amlygu cam-drin a chynorthwyo pobl hŷn yn digwydd fel y byddant yn flaenorol. Ni ellir bychanu effaith hyn, ac mae angen i ni fod yn barod i gynnig gwasanaethau hanfodol i bobl hŷn sy'n dod allan o'r cyfnod clo wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y cynllun cenedlaethol arfaethedig i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Rhaid i ddeddfwriaeth hawliau dynol y DU yn y dyfodol warchod yr hawliau a'r rhyddfreiniau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid iddi beidio â thanseilio effeithiolrwydd na chwmpas y Ddeddf Hawliau Dynol na'r potensial i'w gorfodi, a rhaid iddi adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru.
- Rhaid cynnig gwasanaethau cymorth a diogelu hanfodol i'r bobl hŷn hynny a allai fod wedi dioddef cam-drin yn ystod cyfnod clo'r pandemig Covid-19, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio.

## Cam-drin pobl hŷn

Mae'n bwysig y caiff y gwahanol fathau o gam-drin eu cydnabod ac yr eir i'r afael â nhw. Gall cam-drin fod ar sawl ffurf (gweler yr Atodiad am ddiffiniadau o'r gwahanol fathau o gam-drin).[25] Y prif gategorïau yw:

- Camdriniaeth ariannol
- Esgeulustod ac anwaith
- Camdriniaeth gorfforol
- Camdriniaeth rywiol
- Camdriniaeth emosiynol / seicolegol.

Er nad ydynt yn cael eu crybwyll yn benodol – neu y cânt eu crybwyll yn fras – yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac/neu'r arweiniad sy'n cyd-fynd â hi, mae mathau ychwanegol o gamdriniaeth a all fod ffactor mewn cam-drin pobl hŷn. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ac fe'u nodwyd gan sefydliadau amrywiol neu ffynonellau ymchwil:[26]

- Camdriniaeth gyfundrefnol / sefydliadol

---

[25] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. January 2020.
[26] Ibid.

- Gwahaniaethu a throseddau casineb
- Trais domestig / cam-drin domestig
- Camdriniaeth gan ddieithryn.

Camdriniaeth gyfundrefnol (sydd hefyd yn cael ei galw'n gamdriniaeth 'sefydliadol') yw enghreifftiau mynych o ofal gwael, boed hynny drwy esgeulustod neu arfer proffesiynol gwael yn deillio o bolisïau, prosesau neu strwythurau annigonol mewn sefydliad. Gall ddigwydd mewn unrhyw leoliad lle mae un neu fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth, p'un a yw hynny'n ddyddiol neu ar sail breswyl – er enghraifft mewn cartref gofal, canolfan gwasanaethau dydd, ward ysbyty neu yng nghartref yr unigolyn ei hun. Efallai na fydd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau proffesiynol angenrheidiol, neu efallai y bydd angen mwy o hyfforddiant a datblygu ymagwedd fwy gofalgar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.[27]

Yng Ngorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol a gomisiynwyd ganddi i esgeuluso preswylwyr hŷn mewn cartref gofal, yr ymchwiliwyd iddo ar ffurf Ymgyrch Jasmine.[28] Roedd Age Cymru yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad hwn a'i argymhellion.

Gall gwahaniaethu ar sail oedran fod wrth wraidd llawer o'r problemau a'r anfanteision y mae pobl hŷn yn eu hwynebu heddiw. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y caiff pobl hŷn eu trin heb urddas a pharch, a sut maent yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan bobl yn eu cartrefi eu hunain ac mewn mannau lle y dylent deimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gofalu amdanynt.

Mae egwyddorion sylfaenol hawliau dynol yn cynnwys tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas, ond rydym yn aml yn ymwybodol o achosion lle mae'r rhain yn cael eu cyfyngu neu eu hanwybyddu, ac mae angen cymorth ar bobl hŷn i gynnal eu hawliau.

Yn aml, gall pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ei chael hi'n anoddach codi pryderon yn ymwneud â'u gofal. Gall hyn fod oherwydd rhwystr diwylliannol neu ieithyddol, ofn y gallant ddioddef camdriniaeth homoffobig neu drawsffobig, neu nam synhwyraidd sy'n eu rhwystro rhag cyfathrebu. Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn amlygu ffyrdd i ddiogelu grwpiau gwarchodedig yn rhagweithiol, yn hytrach nag ymateb pan fydd cam-drin yn digwydd.[29]

Dywed y ddogfen 'Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru', a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru drwy weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y gallai pobl i gefndiroedd du ac ethnig lleiafrifol yn benodol deimlo cywilydd neu annifyrrwch o brofi gael eu cam-drin gan eu partneriaid. Gallai enw da'r teulu gael dylanwad penodol ar benderfyniad unigolyn hŷn i beidio â gofyn am gymorth. Weithiau, mae pobl hŷn o gefndiroedd du ac ethnig lleiafrifol yn llai tebygol na phobl iau o siarad neu ddeall Saesneg, a all ei

[27] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020.

[28] Llywodraeth Cymru (2015) Datganiad Ysgrifenedig. Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Flynn. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-i-adroddiad-flynn

[29] Age Cymru (2017) Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (2017) ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Arweiniad statudol yn ymwneud â Rhan 7 y Ddeddf ar Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg.

gwneud yn anodd iawn iddynt ddatgelu camdriniaeth pan nad oes gwasanaethau arbenigol ar gael.[30]

Mae’r ddogfen uchod hefyd yn tynnu sylw at rai o’r rhwystrau ychwanegol rhag hysbysu y tybir bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a phobl drawsrywiol yn eu hwynebu[31]. Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dueddol o fod yn gyndyn o roi gwybod am drais a chamdriniaeth, ac mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael yn ymwneud â phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn.[32]

Mae pobl hŷn gyda dementia mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin oherwydd eu diffyg gallu i geisio cymorth, eirioli drostyn nhw’u hunain neu dynnu eu hunain o sefyllfaoedd a all fod yn gamdriniol.[33]

Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn glir na fydd camdriniaeth nac esgeulustod o unrhyw fath tuag at bobl hŷn yn cael eu goddef. Mae hyn yn cynnwys sgamiau (twyll) ariannol, camdriniaeth gorfforol a meddyliol, ac esgeulustod. Nid yw oedran yn lleihau hawliau pobl i fyw ag urddas a pharch.[34]

Mae cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn broblem gudd o hyd, i raddau helaeth.[35] Mae natur gudd camdriniaeth yn broblem, ynghyd â’r stigma. Os ydym am fynd i’r afael â chamdriniaeth yn effeithiol, mae’n bwysig sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth o beth yw camdriniaeth a beth ellir ei wneud i’w hatal neu ei rhwystro. Mae angen mwy o gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod, ac mae angen i bobl wybod sut a lle i roi gwybod am bryderon.

Mae pobl hŷn wedi awgrymu codi ymwybyddiaeth drwy raglenni teledu, grwpiau pobl hŷn, a chan aelodau grwpiau drwy eu rhwydweithiau ehangach. Awgrymwyd y dylid cynnwys heddweision cymunedol, mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella goleuadau stryd a chynlluniau Gwarchod y Gymdogaeth hefyd.

## Cynigion polisi cyhoeddus

- Rhaid monitro gweithrediad argymhellion adroddiad Flynn (yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i esgeulustod preswylwyr hŷn mewn cartrefi gofal) yn effeithiol.

---

30 Llywodraeth Cymru (2017) Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru.
31 Ibid
32 Ibid.
33 Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2017) Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/safeguarding-older-people-in-wales.pdf
34 Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy’n heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn. https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn
35 Age UK (2018) *Policy Position Paper. Adult safeguarding* (Lloegr). https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/policy-positions/health-and-wellbeing/adult-safeguarding-policy-position-nov-2018-final.pdf

## Diogelu

Mae'r term 'diogelu' yn golygu ystod o weithgareddau sydd â'r nod o gynnal hawl sylfaenol unigolyn i fyw'n ddiogel ac yn rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod.[36]

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae Rhan 7 y Ddeddf yn ymwneud yn benodol â Diogelu. Dyma'r ddeddfwriaeth sy'n darparu'r fframwaith i Gymru. I gyd-fynd â'r Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad statudol 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl'.[37]

Lluniwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru i alluogi ymarferwyr rheng flaen a'u rheolwyr i gymhwyso gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y nod yw gwella canlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion i oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod, a phlant sydd mewn perygl.[38]

Caiff ymholiadau diogelu eu gwneud dan a126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn dilyn adroddiad, mae ar wasanaethau cymdeithasol ddyletswydd i gynnal ymholiadau, os bydd achos rhesymol i amau bod person […] yn oedolyn sy'n wynebu risg.[39] O ran y ddyletswydd hon i wneud ymholiadau, y rhethreg yw y caiff y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eu hannog i wneud atgyfeiriadau. Fodd bynnag, gall y realiti fod yn wahanol iawn pan roddir cynnig ar wneud atgyfeiriadau.

Hoffem weld ymagwedd fwy agored a thryloyw tuag at dderbyn atgyfeiriadau neu bryderon, a dylai awdurdodau lleol roi eu dyletswydd i wneud ymholiadau wrth wraidd eu hymateb i bryderon cychwynnol sy'n cael eu codi. Ochr yn ochr â hyn, hoffem weld data clir yn cael ei gasglu mewn perthynas ag ymholiadau diogelu cychwynnol i wella tryloywder o ran pa atgyfeiriadau neu bryderon sy'n cael eu dwyn ymlaen, a'r rhai sy'n cael eu gwrthod o'r cyswllt cyntaf.

O ran atgyfeiriadau trydydd parti i awdurdodau lleol, mae materion yn ymwneud â digideiddio atgyfeiriadau diogelu i awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn gofyn am i ffurflenni atgyfeirio gael eu llenwi ar wefannau, ac efallai nad ydynt yn hygyrch i bob aelod o'r cyhoedd sydd eisiau rhannu pryderon. Ar ben hynny, efallai na fydd rhai pobl hŷn yn gallu manteisio ar dechnoleg gwybodaeth nac yn ei deall. Credwn fod rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio'n hygyrch ac ar gael mewn ystod o fformatiau er mwyn hwyluso atgyfeiriadau gan drydydd partïon, gan gynnwys pobl hŷn.

Credwn fod hyfforddiant mewn diogelu oedolion i staff sy'n cynnig cymorth neu wasanaethau gofal i bobl hŷn yn bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl

---

[36] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020.
[37] Llywodraeth Cymru. Canllawiau diogelu. Diweddarwyd ddiwethaf 18/3/2021 https://llyw.cymru/canllawiau-diogelu
[38] Gweithdrefnau Diogelu Cymru https://www.diogelu.cymru/int/i1/i1.p1.html
[39] Gweithdrefnau Diogelu Cymru https://diogelu.cymru/adu/a3pt1/a3pt1.p6.html

hŷn, sut i'w adnabod a'i atal, a'r prosesau i gychwyn achos lle mae amheuaeth o gam-drin.  Dylai pawb sy'n gysylltiedig â diogelu oedolion fod â dealltwriaeth gadarn o egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a sut i'w chymhwyso'n ymarferol hefyd.  Gall hyfforddiant hybu arfer gorau hefyd a sbarduno newid mewn agweddau diwylliannol a chyfundrefnol tuag at bobl hŷn, fel y cânt eu trin ag urddas a pharch.  Rhaid i hawliau dynol gael eu prif-ffrydio wrth ddatblygu polisi ac arfer gan bob asiantaethau sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth i bobl hŷn.  Bydd hyn yn sicrhau bod gan bob unigolyn hŷn yr hawl i fod yn rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac yn sicrhau dull i warchod hawliau pobl.

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i bob asiantaeth sydd ynghlwm wrth ofal a chymorth i bobl hŷn fabwysiadu ymagwedd gyson tuag at ddiogelu.  Rhaid i hyfforddiant ar ddiogelu oedolion fod yn orfodol i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth i bobl hŷn.
- Rhaid i awdurdodau lleol roi eu dyletswydd i wneud ymholiadau wrth wraidd eu hymateb i bryderon diogelu cychwynnol sy'n cael eu codi, a gwella tryloywder yn y modd y caiff atgyfeiriadau a phryderon eu prosesu.
- Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio diogelu yn hygyrch ac ar gael mewn ystod o fformatiau er mwyn hwyluso atgyfeiriadau gan drydydd partïon, gan gynnwys pobl hŷn.
- Rhaid prif-ffrydio hawliau dynol wrth ddatblygu polisi ac arfer gan bob asiantaeth sydd ynghlwm wrth ofal a chymorth i bobl hŷn.

## Eiriolaeth

Eir i'r afael ag eiriolaeth yn fanylach yn safbwynt polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth'.

Mae oedolion sydd mewn perygl o niwed ymhlith y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau, a rhaid sicrhau bod ganddynt lais a'u bod yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth.  Gall eiriolaeth annibynnol helpu i unioni'r anghydbwysedd o ran pŵer sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd camdriniol, a gall alluogi'r unigolyn i adennill rhywfaint o reolaeth.  Dylai'r holl bobl hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth, p'un a ydynt yn bodloni meini prawf oedolyn mewn perygl ai peidio, gael cynnig gwasanaethau eiriolwr gan awdurdodau lleol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu eiriolaeth.  Mae'r Ddeddf yn diffinio eiriolaeth fel hawl i bob unigolyn yng Nghymru dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys (ond nid yn unig) asesu, cynllunio gofal, adolygu a diogelu.[40]

[40] Age Cymru (2016) Pwysigrwydd Eiriolaeth 5. Crynodeb gweithredol. http://www.ageuk.org.uk/cymru/policy/golden-thread-advocacy-programme/advocacy-counts/

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr gwasanaethau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fodolaeth, diben a manteision eiriolaeth ymhlith pobl hŷn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â nhw.
- Dylai'r holl bobl hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth, p'un a ydynt yn bodloni meini prawf oedolyn mewn perygl ai peidio, gael cynnig gwasanaethau eiriolwr gan awdurdodau lleol.

## Mynediad i Gyfiawnder

Mae methu cofnodi a chategoreiddio troseddau'n briodol yn rhwystr sylweddol rhag pobl hŷn yn manteisio ar gyfiawnder. Rhaid i bobl hŷn fod â mynediad cyfartal i'r cymorth a'r cyfiawnder sydd ar gael i oedolion eraill.

Prif amcan y Peilot Mynediad i Gyfiawnder oedd galluogi dioddefwyr bregus cam-drin domestig i fanteisio ar brosesau cyfiawnder troseddol neu sifil i'w hamddiffyn rhag dioddef camdriniaeth bellach. Roedd yr amcan hwn wedi'i seilio ar yr angen i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn. Yn 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel', nododd Llywodraeth Cymru mai 'un o'r hawliau mwyaf sylfaenol yw cael eich diogelu rhag trais neu gam-fanteisio'.[41]

Roedd y peilot yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid integreiddio gweithdrefnau, polisïau a chyfarwyddyd ar gam-drin domestig a cham-drin yr henoed yn fwy effeithiol.[42]

Mae'r term 'cam-drin yr henoed' yn codi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod pobl hŷn nid yn unig yn profi esgeulustod, ond y gallant ddioddef camdriniaeth gorfforol, seicolegol, ariannol a rhywiol hefyd. Fodd bynnag, dywed Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y gall y term 'cam-drin yr henoed' awgrymu bod cam-drin pobl hŷn yn wahanol i gam-drin pobl eraill rywsut: weithiau, mae'r gamdriniaeth mae pobl hŷn yn ei hwynebu yn dramgwydd troseddol hefyd, ond caiff ei nodi fel 'cam-drin yr henoed' a'i hatgyfeirio i wasanaethau amddiffyn oedolion yn hytrach nag i'r heddlu. Os caiff yr heddlu wybod amdani'n ddiweddarach, gallai tystiolaeth hanfodol fod wedi'i dinistrio.[43]

**Cynnig polisi cyhoeddus**

- Mae angen gwaith rhyngasiantaethol gwell rhwng gwasanaethau amddiffyn oedolion a gwasanaethau cam-drin domestig fel bod pobl hŷn yn cael cymorth ac ymyriadau priodol cyn gynted ag y bo modd.

[41] Llywodraeth Cymru (2012) Prosiect Peilot Mynediad i Gyfiawnder.
[42] Ibid.
[43] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Troseddau yn Erbyn, a Cham-drin, Pobl Hŷn.

## Troseddau casineb a phobl hŷn

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ymwybodol y gallai 'troseddau yn erbyn pobl hŷn fod yn seiliedig ar wahaniaethu ar sail oedran neu ragfarn yn erbyn pobl hŷn'.[44] Dywed, er nad oes diffiniad statudol o droseddau yn erbyn pobl hŷn, na deddfwriaeth sy'n caniatáu cymhwyso ymgodiad i ddedfryd yn yr un modd â throseddau casineb, mae'n ymrwymo i sicrhau y ceir cyfiawnder i bobl hŷn drwy erlyn troseddau yn eu herbyn a chefnogi'r dioddefwyr a thystion drwy gydol y broses honno.[45]

Mae Age Cymru yn aelod o'r Grŵp Atal Cam-drin Pobl Hŷn yng Nghymru ac, wrth ymateb i ymgynghoriad gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfraith troseddau casineb,[46] ymatebodd y grŵp y dylai oedran gael ei gydnabod yn nodwedd warchodedig at ddibenion cyfraith troseddau casineb. Mae cynnwys oedran mewn deddfwriaeth troseddau casineb yn rhan angenrheidiol o gymryd camau llwyddiannus i atal cam-drin a chefnogi'r rhai sy'n cael profiad ohono.[47]

Cynhaliodd Diverse Cymru brosiect ymchwil[48,49] i Droseddau yn Erbyn Pobl Hŷn (50+) ar ran Llywodraeth Cymru. Crybwyllodd fod dros 50% o ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod pob math o drosedd, ac eithrio ymddygiad bygythiol, yn ymwneud ag oedran. Gan amlaf, ystyriwyd bod twyll, byrgleriaeth, esgeulustod, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau 'cyfeillio', yn ogystal â bygythiadau a sarhad llafar, yn droseddau yn erbyn pobl hŷn. Roedd rhwystrau rhag rhoi gwybod am droseddau yn erbyn pobl hŷn yn cynnwys: ofn dial neu waethygu'r sefyllfa; peidio â chael eu credu, eu deall, eu clywed neu eu cymryd o ddifrif; ofn ymyriadau annymunol, colli gofal, cymorth neu deulu; peidio â gwybod pwy i roi gwybod iddynt a sut; teimladau o euogrwydd, annifyrrwch a chywilydd; anawsterau cyfathrebu a galluedd meddyliol.[50] Gwnaeth yr adroddiad argymhellion i helpu i fynd i'r afael â throseddau yn erbyn pobl hŷn, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r materion a chefnogi pobl y mae troseddau yn gysylltiedig ag oedran wedi effeithio arnynt.

## Cam-drin ariannol

Cam-drin ariannol yw dwyn neu ddefnyddio eiddo, arian neu asedau eraill unigolyn yn anghyfreithlon neu heb awdurdod. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn, rhaid i asiantaethau fod yn wyliadwrus a chael hyfforddiant priodol i allu

---

[44] CPS (2019) *Policy guidance on the prosecution of crimes against older people* Policy guidance on the prosecution of crimes against older people | The Crown Prosecution Service (cps.gov.uk)
[45] Ibid CPS (2019)
[46] Comisiwn y Gyfraith (2020). *Hate crime laws.* Hate Crime | Law Commission
[47] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021) Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfreithiau Troseddau Casineb. 1.3.21 https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Consultation_Responses_2021/Ymgynghoriad_Comisiwn_y_Gyfraith_ar_Gyfreithiau_Troseddau_Casineb_W.sflb.ashx
[48] Diverse Cymru. Oedran Cyfiawnder. Crynodeb gweithredol o brosiect ymchwil Diverse Cymru ar Droseddau yn erbyn Pobl Hŷn (50+) a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru.
[49] Diverse Cymru (2016) Oedran Cyfiawnder. Datganiad Newyddion. 24 Mawrth 2016. https://www.diversecymru.org.uk/cy/oedran-cyfiawnder/
[50] Ibid.

ymchwilio i achosion drwgdybiedig cyn gynted ag y bo modd.  Gall cyngor ac eiriolaeth, gan gynnwys mynediad at gymorth cyfreithiol, chwarae rôl o ran helpu pobl i roi Atwrneiaeth Arhosol (LPA) ar waith hefyd cyn iddynt golli alluedd.  Mae Atwrneiaethau Arhosol yn ddogfennau cyfreithiol pwysig a pherthnasol sy'n caniatáu i benderfyniadau 'lles pennaf' pwysig gael eu gwneud ar ran y rhoddwr mewn perthynas â chyllid, iechyd a lles.[51]

Gall pobl hŷn fod mewn perygl penodol o gamdriniaeth drwy sgamiau (twyll) – mae tystiolaeth gan Safonau Masnach Cenedlaethol yn dangos bod 85% o ddioddefwyr sgamiau ar drothwy'r drws.[52]  Yn aml, gall yr effaith ar iechyd a lles fod yn fwy o lawer na'r golled ariannol.  Mae pobl yn colli hyder a gallant ddioddef o fwy o unigedd a dod yn fwy ofnus.  Yn ei dro, mae hyn yn arwain at ddirywiad yn eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol.[53]

Mae llawer o dwyllwyr yn defnyddio cwmnïau ffôn, darparwyr gwasanaethau'r rhyngrwyd a gwasanaethau post, fel y Post Brenhinol, bron yn ddirwystr, sy'n golygu bod y rhwydweithiau hyn, boed yn anfwriadol neu beidio, yn hwyluso twyll.  Mae Age Cymru o'r farn y dylai'r rhwydweithiau hyn gymryd cyfrifoldeb a llunio ffyrdd newydd i ddiogelu dioddefwyr diarwybod rhag cael eu twyllo.

Er mwyn cyflawni Cymru o blaid pobl hŷn, dylai pobl hŷn allu byw heb ofn dioddef ar law twyllwyr, boed hynny ar drothwy'r drws, drwy'r post, dros y ffôn neu ar-lein.

Mae Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau (WASP)[54] yn bartneriaeth rhwng sefydliadau (gan gynnwys Age Cymru) sy'n ymrwymo i gadw Cymru yn ddiogel rhag sgamiau, ac mae wedi datblygu 'Siarter yn Erbyn Sgamiau'[55] i ddiogelu pobl yng Nghymru yn well rhag sgamiau a thwyll, a chynorthwyo dioddefwyr.

Rydym yn croesawu cynigion i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol i godi ymwybyddiaeth o sgamiau ymysg trigolion lleol, yn enwedig pobl hŷn.[56]

Credwn fod ymagwedd ataliol tuag at dwyll yn hanfodol i addysgu pobl am y mathau o dwyll sy'n targedu pobl, a'u hatal rhag dod yn ddioddefwyr twyll cronig.  Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir pwys cyfartal ar atal cam-drin yng Nghymru, a bod rhaid iddi gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni arloesol o waith ataliol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

---

[51] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2017) Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (2017) ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Arweiniad statudol yn ymwneud â Rhan 7 y Ddeddf ar Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg. http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Consultation_Responses_2017/Consultation_response_on_WG_Statutory_Guidance_in_relation_to_part_7_of_the_Act.sflb.ashx

[52] Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn. https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn

[53] Ibid.

[54] WASP Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau (2016) Siarter yn Erbyn Sgamiau.

[55] Ibid.

[56] Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn. https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Dylai Llywodraeth y DU ddarparu mwy i ddiogelwch i bobl hŷn sy'n cael eu targedu gan dwyll drwy roi dyletswydd ar ddarparwyr post, ffôn a'r rhyngrwyd i leihau faint o dwyll sydd yn eu rhwydweithiau.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir pwys cyfartal ar atal cam-drin yng Nghymru, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni arloesol o waith ataliol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## Atodiad: Diffiniadau o wahanol fathau o gamdriniaeth

Cymerwyd y diffiniadau canlynol o ffeithlen ‘Diogelu’ Age Cymru.[57]

Gall camdriniaeth fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

- Camdriniaeth gorfforol yw camdriniaeth sy’n cynnwys cyswllt sydd â’r bwriad o achosi neu arwain at boen, anaf neu ddioddefaint corfforol neu niwed corfforol arall. Gall hefyd arwain at deimladau o ofn a phroblemau seicolegol eraill.
- Camdriniaeth ariannol yw dwyn neu ddefnyddio eiddo, arian neu asedau unigolyn yn anghyfreithlon neu heb awdurdod.
- Mae camdriniaeth seicolegol, sydd hefyd yn cael ei galw’n gamdriniaeth emosiynol, yn fath o gamdriniaeth lle mae unigolyn yn gwneud rhywun arall yn destun, neu’n ei (d)datgelu, i ymddygiad nad yw’n achosi niwed corfforol iddo/iddi o reidrwydd, ond sy’n gallu achosi trallod emosiynol sylweddol. Yn aml, mae hyn yn gysylltiedig â sefyllfaoedd lle mae anghydbwysedd o ran pŵer, fel perthynas gamdriniol.
- Gellir diffinio camdriniaeth rywiol fel defnyddio gorfodaeth neu rym i gynnwys rhywun yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol mewn gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad. Nid yw pobl nad ydynt yn deall yn llawn beth sy’n digwydd iddynt – oherwydd llai o alluedd meddyliol, er enghraifft – yn gallu cydsynio i weithgarwch rhywiol.
- Mae esgeulustod yn fath o gamdriniaeth lle mae’r sawl sy’n ei chyflawni’n gyfrifol am ofalu am rywun nad yw’n gallu gofalu amdano’i hun neu amdani hi’i hun, ond sy’n methu darparu’r gofal hwnnw – boed hynny drwy beidio â darparu gofal o gwbl, neu ddarparu gofal y mae’n amlwg nad yw o safon ddigonol i fodloni anghenion yr unigolyn. Fel y cyfryw, gall esgeulustod fod yn fwriadol neu gall ddigwydd o ganlyniad i beidio â deall beth yw anghenion rhywun.
- Gall ‘hunanesgeulustod’ fod yn berthnasol mewn achosion o gam-drin. Mae’r rhan fwyaf o fathau o esgeulustod neu gamdriniaeth yn cael eu cyflawni gan rywun arall ac, yn gyffredinol, mae’r gyfraith yn tybio bod cyflawnwr yn ogystal â dioddefwr. Fodd bynnag, gall hunanesgeulustod beri pryder o ran diogelu hefyd, er enghraifft, gallai rhywun yn y sefyllfa hon ddod yn darged ar gyfer gwerthwyr diegwyddor ar drothwy’r drws neu bobl sy’n cyflawni sgamiau. Mae pobl hŷn a all fod yn fwy tebygol o esgeuluso eu hunain yn cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl (fel iselder neu ddementia), neu broblemau ag alcohol neu gyffuriau. Fel arall, gall nodi dechrau afiechydon eraill.

Mae mathau ychwanegol o gamdriniaeth a allai fod yn ffactor o ran cam-drin pobl hŷn hefyd, a nodwyd gan sefydliadau neu ffynonellau ymchwil amrywiol:[58]

- Camdriniaeth gyfundrefnol (sydd hefyd yn cael ei galw’n gamdriniaeth ‘sefydliadol’) yw enghreifftiau mynych o ofal gwael, boed hynny drwy esgeulustod neu arfer proffesiynol gwael yn deillio o bolisïau, prosesau neu strwythurau annigonol mewn sefydliad. Gall ddigwydd mewn unrhyw leoliad lle mae un neu fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth, p’un a yw hynny’n

[57] Age Cymru (2020) *Safeguarding older people in Wales from abuse and neglect*. Ffeithlen 78w. Ionawr 2020.
[58] Ibid.

ddyddiol neu ar sail breswyl – er enghraifft mewn cartref gofal, canolfan gwasanaethau dydd, ward ysbyty neu yng nghartref yr unigolyn ei hun.  Efallai na fydd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau proffesiynol angenrheidiol, neu efallai y bydd angen mwy o hyfforddiant a datblygu ymagwedd fwy gofalgar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Camdriniaeth wedi'i hysgogi gan wahaniaethu, gan gynnwys achosion posibl o droseddau casineb.  Mae credoau ac arferion gwahaniaethol yn cyfyngu ar fywydau'r bobl y cânt eu gwthio arnynt.
- Troseddau casineb.  Mae canllawiau diogelu Llywodraeth Cymru yn cynghori y gall 'unrhyw un o'r mathau uchod o gamdriniaeth gael ei ysgogi gan nodweddion personol y dioddefwr.  Efallai y bydd hynny'n golygu mai trosedd casineb ydyw. Ystyr trosedd casineb yw trosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall o'r farn ei bod wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd person'.[59,60]
- Gallai unigolyn hŷn gael ei gam-drin/cham-drin, er enghraifft, gan werthwr, adeiladwr neu gyfreithiwr llygredig.  Weithiau, bydd dieithriaid yn manteisio ar bobl hŷn ac yn codi tâl gormodol am wasanaethau (fel mân waith adeiladu ar eiddo), neu'n rhoi pwysau ar bobl i brynu pethau na allant eu fforddio neu nad oes eu heisiau arnynt.
- Trais a chamdriniaeth ddomestig yw unrhyw achos, neu achosion mynych, o ymddygiad rheolaethol, cymhellol neu fygythiol gan rywun tuag at bartner (neu rywun a oedd yn arfer bod yn bartner), beth bynnag fo'u rhywedd neu rywioldeb.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2021

[59] Ibid.
[60] Llywodraeth Cymru (2016) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg.